

Uned 3

Achosion Afiechydon mewn Anifeiliaid Fferm

Taflen Wybodaeth

Cyflwyniad

Ceir hen ddywediad ym myd ffermio “lle mae da byw mae stoc farw”.

Er braidd yn besimistaidd, mae'n wir fod y ffermwr modern yn dod ar draws nifer o afiechydon yn ystod blwyddyn ffermio.

Gan fod cynnyrch llaeth neu gig yn fwy mewn anifail iach, mae'n bwysig bod y ffermwr yn gallu adnabod arwyddion o afiechyd/clefyd. Yna, gellir dod o hyd i'r achos, trin y broblem, a'i atal rhag digwydd eto o bosib.

Mae rôl y ffermwr fel un 'mini-milfeddyg'.

Beth sy'n achosi afiechyd mewn anifeiliaid fferm?

Mae yna sawl achos:

- organebau niweidiol
- amgylchedd yr anifail
- niwed corfforol
- ffactorau maethol
- anhwylderau metabolig
- straen
- cemegau
- problemau etifeddol
- alergeddau

Gellir dosbarthu achosion afiechyd i saith prif gategori:

1. Ffactorau Corfforol
2. Ffactorau Cemegol
3. Ffactorau Biolegol
4. Ffactorau Maethol
5. Ffactorau Metabolig
6. Ffactorau Etifeddol
7. Adwaith Alergaidd

1. Ffactorau Corfforol sy'n achosi afiechyd

Gall anifeiliaid ddiodef niweidiau corfforol ar y fferm.

Fel arfer, achosir hyn gan reoli gwael.

Enghreifftiau

- Cloffni o ganlyniad i syrthio neu lithro
- Llwybrau neu ffyrdd caregog o ansawdd gwael

- Llawr gwael neu wasarn gwlyb, gwael
- Boddi oherwydd bod cafnau heb orchudd neu mewn afon
- Oerfel oherwydd tywydd gwael a dim cysgod
- Llosg haul - ffotosensitifedd
- Buarth blêr - hoelion, weinars, dalennau sinc
- Trydaniad oherwydd gwaith trydan neu oleuadau gwael
- Ffens weiren bigog mewn cyflwr gwael
- Damweiniau ffordd oherwydd cyflwr gwael y ffensys

2. Ffactorau Cemegol sy'n achosi afiechyd

Gall anifeiliaid fynd yn sâl drwy lyncu neu fod yn agored i lawer o gemegau, naturiol a synthetig gwahanol.

Enghreifftiau

- Bwya planhigion gwenwynig e.e. rhedyn, creulys iago, rhododendron
- Ychwanegion asidig silwair
- Pryfleiddiadau a chwynladdwyr
- Meddyginiaeth anifail e.e. mae rhai anifeiliaid yn alergaidd i feddyginiaeth a phan gânt eu gorddosio
- Gorddôs neu ddiffyg o fitaminau a mwynau e.e. mae copr yn wenwynig iawn os rhoir gormodedd i ddefaid; mae diffyg cobalt yn achosi 'dihoened'
- Anadlu mygdarthau gwenwynig e.e. os bydd tanciau slyri'n cael eu hysgwyd, ac nid yw'r siediau gwartheg wedi ei hawyru'n dda.

3. Cyfryngau Biolegol

Pathogenau neu gyfryngau biolegol sy'n achosi'r mwyafrif o afiechydon ar ffermydd. Organebau byw yw'r cyfryngau biolegol. Mae 5 prif fath o gyfryngau

- Bacteria
- Ffyrsgau
- Protosoa
- Ffyngau
- Parasitiaid

4. Ffactorau Maethol

Dyma rai problemau cyffredin a gysylltir â maeth

- Nid yw'r anifail yn cael digon o fwyd - diffyg maeth
- Nid yw'r anifail yn cael y math iawn o fwyd ac nid yw'n gallu gwneud defnydd ohono
- Mae'r anifail yn cael rhy ychydig o fwyd o'i gymharu â lefel y cynhyrchiad. Bydd hyn yn arwain at golli cyflwr corff a phroblemau ffrwythlonder mewn gwartheg a defaid
- Mae'r pridd mae'r anifail yn pori arno yn ddiffygiol mewn maethynnau ac yn achosi diffygion yn yr anifail e.e. diffyg copr - cefn pantiog
- Mae systemau amaethu dwys yn medru creu eithafoedd lle gwthir yr anifail yn rhy galed e.e. gall barlys eidion arwain at asidosis

- Porthiant o ansawdd gwael wedi eu llygru â bacteria e.e. Listeria.

5. Anhwylderau Metabolig

Metaboledd yw prosesau sy'n cymryd lle o fewn y corff. Mae anhwylder metabolig yn cael ei achosi wrth i un o brif systemau'r corff dorri i lawr e.e. systemau gwaed, treulio neu fronnol.

Enghreifftiau

- Chwydd y Boten/Clwy' Boten – methu cael gwared â nwy
- Clwy' Llaeth – dim digon o galsiwm yn cyflenwi'r system waed
- Tocsemia Beichiogrwydd - y corff yn methu cael gwared â gwenwynau

6. Ffactorau Etifeddol

Er mwyn i anhwylder gael ei etifeddu rhaid iddo fedru cael ei basio ymlaen o riant i'r epil. Nid oes raid i'r rhiant ddiodef o'r cyflwr ond bod yn gludydd.

Enghreifftiau

- Entropion - lle mae amrannau gwyn yn troi tuag i mewn, mewn wŷn
- Safnau rhy hir/rhy fyr mewn defaid
- CVM mewn gwartheg

Awgrymiadau eraill, ond heb eu profi:

- Tuedd i fwrw'r llawes goch mewn mamogion
- Perygl o ddatblygu mastitis o achos strwythur y deth
- Gwendid yn y droed neu'r goes o achos cydffurfiad gwael.

7. Ffactorau Alergaidd

Mamaliaid yw gwartheg a defaid yn union fel pobl, a gallant ddiodef o alergeddau.

Enghreifftiau

Colyn gwenyn meirch/gwenyn
Antibiotigau
Brech Danadl

Ffactorau Rhagdueddol

Mae rhai ffactorau'n golygu bod rhai anifeiliaid yn fwy tueddol i gael afiechyd nac eraill mewn rhai amgylchiadau. Mae ffactor rhagdueddol yn paratoi'r ffordd at glefyd.

Enghreifftiau

- Dim ond drwy friw y gall pathogenau gael mynediad i'r corff. Y briw yw'r ffactor rhagdueddol
- Mae diffygion isglinigol mewn mwynau yn gallu golygu bod anifeiliaid yn fwy tueddol o gael afiechyd
- Mae straen yn ffactor rhagdueddol mawr sy'n arwain at rai anhwylderau cyffredin e.e. dera'r borfa/clwy' llaeth/ niwmonia

- Yr amgylchedd e.e. mae drafft, gwasarn gwlyb, amgylchedd bawlyd yn arwain at glefydau
- Mae lefel gwrthgorff isel, oherwydd diffyg mewn colostrwm, yn arwain at heintiau e.e. ceg ddyfriog
- Mae gwahanol gamau yn y cylch cynhyrchu yn gallu gwneud yr anifail yn agored i rai cyflyrau e.e. clwy'r efeilliaid/clwy'r eira mewn mamogion, clwy' llaeth
- Gall hinsawdd anaddas arwain at straen ac amgylchedd gwael
- Gall bwydo gwael neu annigonol arwain at rai anhwylderau.

Crynodeb

Gellir rhannu achosion afiechyd i brif grwpiau. Mae tuedd anifail i gael afiechyd yn cynyddu os oes ffactorau rhagdueddol ar gael ar y fferm. Rôl y ffermwr ydi cael gwared â'r prif ffactorau sy'n arwain at afiechydon trwy ofalu'n dda am ei anifeiliaid.